# Gwnewch i Lywodraeth Cymru wrando arnoch chi




**Ydych chi eisiau gwneud pethau'n well lle rydych chi'n byw? Ydych chi'n flin am rywbeth sy'n ymddangos yn annheg?**

Gallwch geisio newid pethau drwy anfon deiseb i'r Senedd, sef Senedd Cymru. Nid yw llawer ohonom yn meddwl llawer am wleidyddiaeth ond mae'r Senedd yn bodoli i wneud yn siŵr bod Llywodraeth Cymru yn eich cynrychioli ac yn gwrando ar yr hyn sy'n bwysig i chi.

Mae Aelodau'r Senedd yn edrych ar ddeisebau. Diolch i ddeisebau, mae pobl wedi newid y gyfraith. Un o'r deisebau mwyaf erioed yn y DU oedd rhoi'r hawl i fenywod bleidleisio. Yn fwy diweddar, derbyniodd deiseb i wella diogelwch dŵr fwy nag 11,000 o lofnodion a chafodd ei thrafod yn y Senedd. Diolch i'r ddeiseb mae Gweinidog bellach yn gyfrifol am atal boddi.

## Pan fydd deiseb yn cael...

**250 o lofnodion**

Mae'r pwyllgor deisebau yn edrych yn fanwl i benderfynu ar y camau gorau. Gall ofyn i'r llywodraeth beth maen nhw'n ei wneud yn ei gylch

**10,000 o lofnodion**

Efallai y bydd y broblem yn cael ei thrafod yn y Senedd gan Aelodau Seneddol a gweinidog o'r llywodraeth sy'n gorfod dweud beth maen nhw'n ei wneud i helpu.

Gall staff hefyd gysylltu â deisebwyr i helpu ASau i gael rhagor o wybodaeth am y ddeiseb.

# Sut I ddechrau deiseb a gael hysbysaid

Mae deisebau da yn dweud beth maen nhw eisiau i'r senedd neu'r llywodraeth ei wneud ac yn esbonio pam mae'r ddeiseb yn bwysig.

Meddyliwch am UN cam rydych chi am iddyn nhw ei gymryd. Yna siaradwch â phobl eraill am yr hyn y bydd eich deiseb yn ei ddweud. Bydd hyn yn eich helpu i ddisgrifio'r broblem sy'n bwysig i chi ac ysgrifennu eich cais mor glir â phosibl

Dewch o hyd i ddau berson i gefnogi eich deiseb. Bydd angen eu cyfeiriadau e-bost arnoch chi.

Unwaith y bydd eich deiseb wedi'i derbyn, bydd angen i chi ei rhannu â chymaint o bobl â phosibl a gofyn iddynt ei llofnodi.

Dechreuwch eich deiseb yn deisebau.senedd.cymru/deisebau/gwirio.

## Er mwyn sicrhau bod eich deiseb yn cael sylw:

**Lledaenwch y gair:** dywedwch wrth bobl am eich deiseb ac eglurwch pam ei bod yn bwysig - teulu, ffrindiau, cymuned, eglwys, grwpiau cymdeithasol, elusennau lleol, busnesau. Gofynnwch iddynt lofnodi a gofynnwch i bobl y maent yn eu hadnabod i lofnodi.

**Gofynnwch i eraill eich helpu:** gofynnwch am help gan awduron, siaradwyr a defnyddwyr cyfryngau cymdeithasol da – i gyd yn sgiliau defnyddiol i helpu i hyrwyddo eich deiseb.

**Defnyddiwch gyfryngau cymdeithasol:** (Facebook, Instagram a TikTok) i gysylltu â chefnogwyr a fydd yn llofnodi ac yn rhannu eich deiseb.

**Cynhaliwch ddigwyddiad neu weithgaredd:** gallai fod yn gyfarfod, yn daith gerdded noddedig neu hyd yn oed yn stondin gacennau – unrhyw le y gallwch siarad yn agored am eich deiseb a pham ei bod yn bwysig.

**Tynnwch luniau:** ar gyfer cyfryngau cymdeithasol ac i'w hanfon i'r cyfryngau lleol. Gofynnwch ganiatâd yn gyntaf bob tro.

**Cysylltwch â'ch AS:** gallwch ddod o hyd i'w manylion yn senedd.cymru/dod-o-hyd-i-aelod-o-r-senedd/. Dywedwch wrthyn nhw am eich deiseb. Gofynnwch i gwrdd â nhw i siarad am sut y gallant helpu.

**Cysylltwch â newyddiadurwyr:** ysgrifennwch at bapurau newydd a chylchgronau lleol a'r gorsafoedd radio a theledu agosaf. Dywedwch wrthynt pam eich bod wedi dechrau deiseb, beth rydych am i'r llywodraeth ei wneud, ac am eich digwyddiadau. Gallent adrodd y stori y tu ôl i'ch deiseb.

**Dechreuwch ddeiseb i godi ymwybyddiaeth o broblem sy'n bwysig i chi. Am gefnogaeth, cysylltwch â'ch sefydliad cymunedol lleol.**

Mae'r daflen hon wedi'i chyd-gynhyrchu â sefydliadau cymunedol **Feel Good Factor, Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Abertawe, TPAS Cymru (Gwasanaeth Cynghori Cyfranogiad Tenantiaid) a Zarach**. Yn seiliedig ar ymchwil am dorri rhwystrau i ymgysylltiad gwleidyddol a ariannwyd gan Research England, dan arweiniad yr **Athro Cristina Leston-Bandeira** o Brifysgol Leeds. Golygu a dylunio: Research Retold (2024)